# Llywodraeth Cymru Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu

Rhagfyr 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53138, ISBN digidol 978-1-80633-790-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 3
2. Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 4
3. Atebolrwydd a Llywodraethiant Llywodraeth Cymru 5
4. Cyfrifoldebau o fewn y Grwpiau Craidd 13
5. Y Berthynas â Chyrff Cyhoeddus Cymru 20
6. GIG Cymru 21
7. Llywodraeth Leol 22
8. Partneriaethau Cyflawni â Thrydydd Partïon 24
9. Grantiau i Gyrff yn y Sector Preifat a'r Sector Gwirfoddol 25
10. Caffael a Masnachol 26
11. Buddsoddiadau, Cyd-fentrau ac Asedau eraill 27


Bydd y Datganiad System hwn gan y Swyddog Cyfrifyddu yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn fel rhan o'r broses o baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Llywodraeth Cymru.

Os bydd newidiadau sylweddol i drefniadau atebolrwydd Llywodraeth Cymru, caiff y Datganiad hwn ei ddiweddaru a'i gyhoeddi yn unol â hynny.

# 1. Cyflwyniad



**Dr Andrew Goodall CBE**
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

**1.1** Fi yw Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Mae'r Datganiad System hwn yn crynhoi sut yr wyf yn cyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu yn unol â'r canllawiau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ac o fewn y cyfrifoldebau a'r rheolaethau a nodir yn fy llythyr awdurdod dirprwyedig gan Drysorlys EF.

**1.2** Mae'r Datganiad System hwn yn disgrifio'r atebolrwydd am holl wariant arian cyhoeddus ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a'r cyrff hyd braich yr wyf yn gyfrifol amdanynt. Mae'n disgrifio'r systemau yr wyf yn eu defnyddio drwy fy nghyfrifoldebau fel y Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn unol â rheoleidd-dra a phriodoldeb a chan sicrhau gwerth am arian. Bydd hyn yn parhau i fod yn gymwys hyd nes y cyhoeddir datganiad diwygiedig.

# 2. Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

**2.1** Fel Ysgrifennydd Parhaol, rwyf wedi fy mhenodi gan Drysorlys EF yn Brif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru. Mae'r Datganiad System hwn yn amlinellu'r holl berthnasoedd a phrosesau atebolrwydd arwyddocaol yn Llywodraeth Cymru, gan nodi'n glir pwy sy'n atebol am beth ar bob lefel yn y system.

**2.2** Mae gan Senedd Cymru (y Senedd) yr hawl i basio deddfau (a elwir yn Ddeddfau Senedd Cymru) mewn meysydd nas cedwir yn ôl i Senedd y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017 a deddfwriaeth arall. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi'r rhan fwyaf o gyfreithiau'r Senedd ar waith.

**2.3** Mae'r Prif Weinidog yn atebol i'r Senedd mewn perthynas â pholisïau, gweithredoedd ac ymddygiad Llywodraeth Cymru. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i'r Prif Weinidog sy'n rhoi fy awdurdod imi. Mae'r awdurdod hwn yn cynnwys fy rolau fel Prif Gynghorydd Polisi'r Prif Weinidog a'r Cabinet a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae fy nghyfrifoldebau yn cynnwys sicrhau bod arian ac adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol a sicrhau bod fframwaith llywodraethiant cadarn, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. O dan delerau fy mhenodiad gan Drysorlys EF, mae fy nhrefniant llinell reoli ffurfiol gyda Phennaeth Gwasanaeth Sifil y DU, sy'n paratoi fy adroddiad perfformiad blynyddol gyda chyfraniad gan y Prif Weinidog, Cyfarwyddwyr Anweithredol Llywodraeth Cymru a rhywfaint o adborth 360 gradd. Rwy'n cytuno ar fy mlaenoriaethau a'm ffocws â'r Prif Weinidog.

**2.4** O dan adran 133 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol yn bersonol am ddiogelu'r cyllid cyhoeddus sydd wedi cael ei roi yn fy ngofal. Pan fyddaf wedi penodi Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol o dan adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, mae eu cyfrifoldebau hefyd yn cael eu nodi yn y Datganiad System hwn. Maent hefyd yn dynodi pob un o Brif Weithredwyr y cyrff hyd braich y maent yn gyfrifol amdanynt fel Swyddogion Cyfrifyddu, yn ddarostyngedig i Femorandwm y Swyddog Cyfrifyddu fel y cytunwyd arno gan Drysorlys EF.

**2.5** Rwyf hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y GIG yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn cael ei lywodraethu drwy awdurdod ar wahân a phenodir Prif Weithredwyr yr holl Fyrddau Iechyd Lleol yn Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr GIG Cymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi wrth fy nghyfrifoldeb cyffredinol am Gyfrifon Llywodraeth Cymru.

**2.6** Mae'r Datganiad hwn yn cwmpasu Llywodraeth Cymru, ei chyrff hyd braich a pherthnasoedd hyd braich eraill. Mae'n disgrifio'r atebolrwydd am yr holl wariant arian cyhoeddus a awdurdodir gan y Senedd at ddefnydd Gweinidogion Cymru, yr holl arian cyhoeddus a godir fel incwm a'r asedau o dan berchenogaeth gyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt, ac am daliadau i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru ac allan ohoni.

**2.7** Mae'r Datganiad System hwn yn fy helpu i sicrhau fy mod yn cyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â'r Memorandwm i Brif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru, y canllawiau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r ddogfen gyfatebol ar gyfer y DU, Managing Public Money.

# 3. Atebolrwydd a Llywodraethiant Llywodraeth Cymru

## Adrannau Anweinidogoy

Awdurdod Cyyyid Cymru

### Iechyd

**Cyrff y GIG**
Byrddau Iechyd Lleol
Ymddiriedolaethau'r GIG
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

**Cyrff y gynheair gyn y GIG**
Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Perfformiad a Gwella GIG Cymru
(Gweithrediaeth y GIG gynt)

## Llywodraeth Cymru

### Cwmnïau

**Cwmnïau sy'n eiddo i Weinidogion Cymru**

Adnodd Cyfyngedig
Careers Choices Dewis Gyrfa Ltd
(yn masnachu fel Gyrfa Cymru)
Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidoy[1]
Cwmnio Egino
Comisiwn Dylunio Cymru
Banc Datblygu Cymru
Y Ganoyfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheiyffyrdd
Hybu Cig Cymru
Diwydiant Cymru
(Sector Development Wales Partnership Ltd)[2]
Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru
(Dysgu)
Grŵp Trafnidiaeth Cymru
Trydan Gwyrdd Cymru
Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Welsh Development Management Ltd
WGC Holdco Ltd

**Corfforyethyu Cyhoeddus**
Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd

### Deiliaid Swyddi Annibynnol Stytudol

Comisiynydd Pyant Cymru
Comisiynydd Cenedyaethau'r Dyfodoy
Prif Aroyygydd EF dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru (Estyn)
Cynghorydd Cenedyaethoy ar Drais yn erbyn Menywod
Y Comisiynydd Poby Hŷn
Comisiynydd y Gymraeg

**Cwmnïau o dyn Berchnogyeth Rynnol**
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

**Buddsoddiydyu**
Airbus Endeavr Wales
Canolfan Gynadyedda Ryngwyadoy Cymru

### Cyrff Hyd Braich Gweithredol

Amgueddfa Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor y Gweithlu Addysg
Llais – Corff Llais y Dinesydd (Cymru)
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Medr: y Comisiwn Addysg Drydyddol
ac Ymchwil
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymwysterau Cymru
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Gofay Cymdeithasol Cymru
Chwaraeon Cymru

### Cyrff Cynghorol

Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau
Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru
Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru
Y Panel Cynghori ar Sgiyiau Creadigol
Y Panel Apelio Annibynnol ar gyfer Ffermwyr
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth
Ariannol
Comisiwn Seiywaith Cenedyaethoy Cymru
Pwyllgor Deintyddoy Cymru
Bwrdd Cynghoroy Cymru ar Ddatblygu
Diwydiannoy
Pwyllgor Meddygol Cymru
Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
Pwyllgor Optometrig Cymru
Pwyllgor Fferylloy Cymru
Pwyllgor Cynghori Gwyddonoy Cymru
Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru

### Tribiwnaysoedd

Panel Dyfarnu Cymru
Y Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru)
Tribiwnlys Addysg Cymru
Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru
Tribiwnlys Apeliadau Aroyygwyr Cofrestredig
Ysgoyion (Cymru)
Tribiwnlys Apeliadau Cofrestredig Aroyygwyr
Addysg Feithrin (Cymru)
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
Tribiwnlys y Gymraeg

### Gryntiyu i awdurdodau lleol, cyrff y GIG, y sector gwirfoddoa y'r sector preifat

1 Ar 18 Medi 2025, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y bydd swyddogaethau'r Ganoyfan yn caey eu hintegreiddio i Yywodraeth Cymru, a disgwyyir i hyn gaey ei gyfyawni erbyn mis Ebrill 2026
2 Ar 2 Hydref 2025, yn dilyn adoyygiad, bydd Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd tymor presennol cytundeb y llywodraeth, yn dileu ei hun fel unig warantwr Diwydiant Cymru ac yn diddymu'r cwmni

## Deddfau Llywodraeth Cymru

**3.1** Darparodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ar gyfer sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl y refferendwm datganoli cadarnhaol ym mis Medi 1997. Darparodd y Ddeddf hefyd ar gyfer trosglwyddo bron bob un o bwerau Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Senedd.

**3.2** Yn dilyn hynny, datblygodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 y setliad datganoli drwy ddwy elfen allweddol, a roddwyd ar waith ym mis Mai 2007:

- Gwahanu'r Senedd oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ffurfiol er mwyn rhoi eglurder ynghylch priod gylch gwaith a rôl y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth, a gwella'r gallu i graffu'n effeithiol;
- Pwerau deddfu ychwanegol i'r Senedd, drwy gategori newydd o ddeddfwriaeth a elwid yn Fesurau'r Cynulliad i ddechrau ac, yn dilyn refferendwm yn 2011, pwerau deddfu llawn gyda'r pŵer i basio Deddfau fel y gellir sicrhau blaenoriaethau deddfwriaethol Cymru yn gyflymach ac yn haws na thrwy ddarpariaethau mewn biliau sy'n cael eu pasio gan Senedd y DU.

**3.3** O dan Ddeddf Cymru 2014, datganolwyd pwerau i Gymru ddeddfu ar drethi i ddisodli trethi'r DU ar gyfer y dreth stamp a'r dreth dirlenwi. Rhoddwyd pwerau benthyca newydd i Gymru hefyd a darparwyd ar gyfer datganoli rhagor o drethi yn ddiweddarach.

**3.4** Roedd Deddf Cymru 2017 yn:

- cynnwys datganiad bod y Senedd a Llywodraeth Cymru yn rhannau parhaol o dirwedd gyfansoddiadol a gwleidyddol y DU;
- cyflwyno model datganoli newydd: model cadw pwerau (yn debyg i'r hyn a geir yn yr Alban);
- rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru mewn meysydd megis ynni, cynllunio, ffyrdd a harbyrau;
- rhoi pwerau newydd i'r Senedd dros ei threfniadau mewnol, sefydliadol ac etholiadol ei hun;
- sefydlu'r cysyniad o dribiwnlysoedd Cymru a Llywydd tribiwnlysoedd Cymru.

**3.5** Ers hynny, mae'r Senedd wedi pasio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, gan gyflwyno cyfres o ddiwygiadau a fydd yn dod i rym ar gyfer etholiad y Senedd sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2026.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i gynyddu'r nifer o Aelodau'r Senedd i 96, gyda'r Aelodau yn cael eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig i 16 o etholaethau newydd, cynyddu'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru a gostwng y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin y Senedd i bedair blynedd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**3.6** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn caniatáu i bawb yng Nghymru wneud pethau'n wahanol – gan newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn meddwl am ddatblygu cynaliadwy. Mae'n rhoi'r awdurdod inni gyflawni dros bawb yng Nghymru – dros bobl a'r blaned – yn awr ac yn y dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Dylai trefniadau gweithredu, llywodraethiant a mecanweithiau'r llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yn Nghymru, i gyd wella ac ymateb i'r gofyniad hwn yn barhaus.

**3.7** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio datblygu cynaliadwy fel: **"Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant."** Mae'n rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith sy'n golygu bod rhaid i gyrff weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## LlC2025 a'r Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus

**3.8** Yn Llywodraeth Cymru, mae trefniadau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy hefyd yn cael eu cyflawni drwy LIC2025, ein rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol. Drwy LIC2025, rydym yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnawn.

**3.9** Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25. Mae'r cynllun hwn yn dwyn ynghyd dros 50 o gamau gweithredu i ddyfnhau ein dealltwriaeth a'n defnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai 2024, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y cynllun, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu ac yn adrodd ein hanes o ddysgu. Bellach, mae'r cynllun yn cael ei ddefnyddio'r tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth fel canllaw defnyddiol, gydag adnoddau i helpu i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, fel gwiriwr cynnydd Ffyrdd o Weithio'r Comisiynydd a llawlyfr Newid Diwylliant Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**3.10** Yn ystod 2024-25, roedd y Pwyllgor Gweithredol yn rhan o'r gwaith o gyflawni camau gweithredu'r cynllun. Arweiniodd hyn at 18 o gamau yn cael eu cwblhau, ac at 15 o gamau eraill yn cael eu hymgorffori yn ein prosesau bob dydd. Mae'r 17 cam gweithredu sy'n weddill ar wahanol gamau cynnydd. Credwn fod ein dull gweithredu yn anfon neges bwysig i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, sef bod agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn am welliant parhaus a myfyrio.

**3.11** Dyma rai o'r camau gweithredu nodedig a gwblhawyd:

- Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu Hwb Dyfodol[1]. Bydd yr adnodd hwn yn meithrin arbenigedd a chapasiti ym maes rhagargoeli a meddwl am y dyfodol ac yn codi ymwybyddiaeth o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar hyd a lled Cymru.
- Ar ôl sicrhau Cymrodoriaeth Polisi Sefydliad Ymchwil y Deyrnas Unedig yn llwyddiannus, rydym yn agos at gwblhau gwerthusiad cam cyntaf o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y gymrodoriaeth, sy'n brosiect 18 mis[2], hefyd yn cyflwyno opsiynau ar gyfer gwerthusiad yn y dyfodol a bydd yn dod i ben yn ystod haf 2025.
- Fe wnaethom Lansio Fframwaith Gallu ym maes Polisi Llywodraeth Cymru i gefnogi swyddogion polisi ac eraill i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Mae fframwaith tebyg ar gyfer Cyflawni Gweithredol hefyd yn cael ei ddatblygu. Bydd y ddau yn cysylltu ag ymddygiadau a rennir (yn seiliedig ar y nodau datblygu mewnol[3]) sy'n cefnogi'r gwaith o roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith.
- Gan weithio gyda'r Comisiynydd, y Brifysgol Agored ac eraill, fe wnaethom greu Ti, Fi a Dyfodol Cymru/You, Me and the Future of Wales[4] i helpu pawb yng Nghymru i ddysgu sut y gallent chwarae rhan weithredol yn y gwaith o greu'r Gymru rydym ei heisiau.
- Fe wnaethom hefyd greu modiwl e-ddysgu i ailgysylltu swyddogion Llywodraeth Cymru â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoi sesiynau cynefino i ddechreuwyr newydd. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sut y gellir sicrhau bod y modiwl hwn ar gael i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

**3.12** Roedd adrodd ar gynnydd y cynllun yn gyfle amserol a gwerthfawr i gymryd eiliad i feddwl ac ystyried yr hyn sydd wedi'i gyflawni, achub ar gyfleoedd newydd,

1 futuregenerations.wales/cym/gwneud/offer/hwb-dyfodol/
2 www.ukri.org/wp-content/uploads/2023/02/UKRI-160223-Funding-Opp-PolicyFellowships2023-WelshGovernmentSustainableFuturesFellowship.pdf
3 innerdevelopmentgoals.org/
4 www.open.edu/openlearn/society-politics-law/politics/ti-fi-dyfodol-cymru

a dyfnhau ein dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Adroddiad Cynnydd[5] yn tynnu sylw at gynnydd sylweddol o ran ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein ffordd o weithio ac yn cydnabod pa mor flaengar yw'r ddeddfwriaeth hon a pha mor aeddfed yw ein sefydliad o ran arwain ar newid.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Adroddiadau Statudol

**3.13** Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys ei asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni'r nodau llesiant[6]. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 yn cynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn, gyda chyngor ac argymhellion wedi'u targedu ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n darparu enghreifftiau o'r newid cadarnhaol sydd eisoes yn digwydd yn ein gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n cyd-fynd â 7 cenhadaeth a maes ffocws strategaeth Cymru Can y Comisiynydd.

**3.14** Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd wedi cyhoeddi ei adroddiad statudol ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 'Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'[7]. Roedd yr adroddiad hwn yn asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Roedd yn canolbwyntio ar sut y mae cyrff cyhoeddus Cymru, yn benodol Llywodraeth Cymru, yn meddwl ac yn gweithredu ar gyfer y tymor hir ac yn cyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**3.15** Mae'r adroddiadau hyn yn fecanwaith atebolrwydd hanfodol, sy'n ein sbarduno i gyflawni'r nodau llesiant a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r adroddiadau yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus, ac at ein sefyllfa o ran y nodau llesiant, a'r meysydd hynny lle nad ydym yn cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llawn, gan argymell camau gweithredu i'w cymryd.

## Y Rhaglen Lywodraethu (2021 – 2026)

**3.16** Y Rhaglen Lywodraethu yw ein cynllun strategol pum mlynedd i Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r hyn y mae Gweinidogion am ei wneud dros y tymor presennol (2021-2026). Mae'r rhaglen yn nodi'r ymrwymiadau uchelgeisiol a radical y byddwn yn eu cyflawni i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu a gwella bywydau pobl ledled Cymru. Mae'n seiliedig ar werthoedd sy'n arbennig o Gymreig: cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n gosod cydweithio o flaen cystadleuaeth, gan ddangos sut y byddwn yn gweithredu i sicrhau tegwch i bawb a dileu anghydraddoldeb ym mhob rhan o gymdeithas.

**3.17** Mae'r rhaglen hefyd yn nodi'r deg amcan llesiant y bydd y llywodraeth yn eu defnyddio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at saith nod llesiant hirdymor Cymru a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Cyhoeddwyd Datganiad Llesiant ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu sy'n nodi ein hamcanion llesiant yn unol â'n dyletswydd statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5 www.llyw.cymru/cynllun-dysgu-a-gwella-parhaus-2023-i-2025
6 adroddiad statudol
7 "Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol"

## Cyllid

**3.18** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y rhan fwyaf o'i chyllid, a elwir yn 'grant bloc', gan Drysorlys EF ac fe'i pennir drwy Adolygiadau Gwariant Llywodraeth y DU a'i addasu yng Nghyllidebau'r DU.

**3.19** Pennir swm y grant bloc fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU, yn unol â'r polisïau a nodir yn "Natganiad Polisi Cyllido" Trysorlys EF ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig.

**3.20** Fel grant bloc, gall y cyllid a ddyrennir i Gymru gael ei wario fel y gwêl Llywodraeth Cymru yn dda; nid oes rheidrwydd i'w wario ar swyddogaethau penodol. Pan fydd Llywodraeth y DU yn adolygu ei chynlluniau gwariant, penderfynir ar newidiadau i'r dyraniad i Gymru yn ôl y newidiadau mewn gwariant cynlluniedig ar wasanaethau tebyg yn adrannau Llywodraeth y DU. Cyfrifir y newid gwirioneddol drwy ddefnyddio fformiwla Barnett sy'n seiliedig ar boblogaeth.

**3.21** Mae hynny'n golygu bod Cymru yn cael y swm a ddyrennir yn y flwyddyn flaenorol, plws neu lai cyfran o newidiadau i wariant Llywodraeth y DU i Loegr yn seiliedig ar boblogaeth. Mae fformiwla Barnett yn gweithredu system gynyddrannol, yn yr ystyr bod y dyraniad mewn un flwyddyn yn seiliedig ar y dyraniad yn y flwyddyn flaenorol.

**3.22** Unwaith y bydd y cyllid sydd ei angen i redeg Swyddfa Cymru (Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru) wedi'i gymryd, mae gweddill y grant bloc, ynghyd â'r derbyniadau treth a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi) wedyn yn cael eu rhoi yng Nghronfa Gyfunol Cymru, sef cyfrif banc datganoledig Cymru yn y bôn. Cytunir ar dderbyniadau Cyfraddau Treth Incwm Cymru gyda Thrysorlys EF bob blwyddyn a chânt eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru yn yr un modd â'r grant bloc.

**3.23** Mae'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu proses cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog y Senedd, yn unol ag adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n ofynnol i'r llywodraeth gyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n awdurdodi: defnyddio adnoddau; cadw incwm; a thynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru. Yna, bydd Pwyllgorau'r Senedd a phartïon eraill â diddordeb yn craffu ar y Gyllideb ddrafft ac yn gwneud sylwadau cyn iddi gael ei llunio'n derfynol, a'i chymeradwyo gan y Senedd yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Gellir amrywio'r Gyllideb drwy Gynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwyir gan y Senedd.

# Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26:

**PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) Y GYLLIDEB DERFYNOL**

**Cydrannau Cyllideb Llywodraeth Cymru**


| PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) | 2025-26 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau a Chyfalaf (ac eithrio AME) | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | CYFANSWM |
| | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 11,975,555 | 325,509 | 12,301,064 | 619,480 | - | 619,480 | 12,920,544 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,483,188 | - | 5,483,188 | 1,196,280 | 72,862 | 1,269,142 | 6,752,330 |
| Addysg | 1,800,854 | 267,594 | 2,068,448 | 374,500 | (1,701) | 372,799 | 2,441,247 |
| Trafnidiaeth | 661,777 | 226,691 | 888,468 | 529,197 | - | 529,197 | 1,417,665 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 579,966 | 20,938 | 600,904 | 306,566 | 10,000 | 316,566 | 917,470 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 465,586 | 32,664 | 498,250 | 327,676 | 16,478 | 344,154 | 842,404 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 139,296 | 507 | 139,803 | 17,890 | 1,461 | 19,351 | 159,154 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 426,979 | 18,538 | 445,517 | 14,609 | - | 14,609 | 460,126 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf (ac eithrio AME)** | **21,533,201** | **892,441** | **22,425,642** | **3,386,198** | **99,100** | **3,485,298** | **25,910,940** |

| PRIF GRŴP GWARIANT | 2025-26 | | |
|---|---|---|---|
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | Adnoddau | Cyfalaf | CYFANSWM |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 277,173 | 820 | 277,993 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 1,114,803 | - | 1,114,803 |
| Addysg | (100,842) | 1,353,163 | 1,252,321 |
| Trafnidiaeth | 2,000 | - | 2,000 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 6,000 | - | 6,000 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 66,525 | - | 66,525 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 226 | - | 226 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3,200 | - | 3,200 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | **1,369,085** | **1,353,983** | **2,723,068** |
| CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs LLYWODRAETH CYMRU | 23,794,727 | **4,839,281** | **28,634,008** |

**3.24** Mae Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru oll yn cael dyraniadau o dan Gyllideb Cymru (Ffigur 2). Dyrennir cyfran sylweddol o'r Gyllideb i'r GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a Chyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru. Dyma'r arian a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**3.25** Mae adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r gyfraith mewn perthynas â thynnu taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Nid yw is-adran 129(4) yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol fel corff taledig. Felly, rhaid i un o'r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol (ar gyfer etholiadau Cymru) o'r cronfeydd y mae'n eu cael oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru. O dan Gytundeb Swyddog Cyfrifyddu rhwng Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Comisiwn Etholiadol, cytunodd Gweinidogion Cymru i ymgymryd â'r swyddogaeth weinyddol hon.

**3.26** Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Senedd am y ffordd y mae'n cymhwyso ac yn rheoli'r Gyllideb. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon sy'n cofnodi sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru a'r taliadau i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru ac allan ohoni. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyflwyno adroddiad ar y cyfrifon hynny, ac mae ganddo rôl yn y broses o gadarnhau bod unrhyw wariant yr aed iddo yn gyfreithlon ac, os darparwyd cyllid at ddiben penodol, ei fod wedi cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw mewn gwirionedd.



## Trethi Cymru

**3.27** O dan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017, datganolwyd pwerau trethu a benthyca i Lywodraeth Cymru a'r Senedd.

**3.28** Mae dwy dreth wedi'u datganoli'n llawn: y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Cyflwynwyd y ddwy dreth hyn ar 1 Ebrill 2018, gan ddisodli trethi'r DU, sef Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru. Maent yn drethi sydd wedi'u datganoli'n llawn, sy'n golygu bod gan Lywodraeth Cymru reolaeth lwyr dros eu dylunio. Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru ym mis Hydref 2017 i gasglu'r trethi hyn.

**3.29** Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019 ac maent wedi'u datganoli'n rhannol i Gymru, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio cyfraddau a delir gan drethdalwyr Cymreig sy'n talu cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol. Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn cadw cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o agweddau ar y dreth, gan gynnwys y gwaith casglu a gweinyddu, pennu'r lwfans personol a throthwyon incwm, a threthu incwm o gynilion a difidendau.

**3.30** O ganlyniad i'r refeniw treth a gynhyrchir gan drethi Cymru, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau'r cyllid grant bloc mae'n ei roi i Gymru, o swm cyfatebol. Mae'n hanfodol bod trethi Cymru yn cael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, er mwyn cynhyrchu'r refeniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig Cymru megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a seilwaith trafnidiaeth.

# 4. Cyfrifoldebau o fewn y Grwpiau Craidd


**4.1** O fis Mawrth 2025 ymlaen, fe wnes i ailstrwythuro'r grwpiau craidd o fewn Llywodraeth Cymru i chwe Grŵp ac un Gyfarwyddiaeth, o dan fy arweinyddiaeth fy hun fel Ysgrifennydd Parhaol a chwe Chyfarwyddwr Cyffredinol, sydd wedi'u penodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol.

## Strwythur llywodraethiant Tachwedd 2025



## Strwythur Llywodraethiant Llywodraeth Cymru

**4.2** Yn Llywodraeth Cymru, mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y prosesau a'r strwythurau sy'n llywio, yn cyfarwyddo, yn rheoli ac yn monitro gweithgareddau Llywodraeth Cymru tuag at gyflawni ei hamcanion.




Mae'r diagram uchod yn adlewyrchu'r strwythur llywodraethiant a oedd ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o 2024-25.

## Manylion y Bwrdd a'r Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| **Prif Swyddog Cyfrifyddu** | Fel Ysgrifennydd Parhaol, fi hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 129(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Hefyd, rwy'n atebol i Weinidogion Cymru am adnoddau Llywodraeth Cymru a'i Chyrff Hyd Braich. |
| **Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol** | Yn fy rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, o dan adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, rhoddir pwerau imi benodi Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae adran 133(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu imi bennu cyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a benodir gennyf. Rwyf wedi dynodi pob Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd wedi'u dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Caiff y dynodiadau hyn eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.<br><br>Mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol hefyd yn uwch-noddwr i gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru, a gall ddynodi Prif Weithredwyr y cyrff hyn yn Swyddogion Cyfrifyddu. Yna, mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwyr, sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Senedd gyda'u Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol. |
| **Y Bwrdd** | Mae'r Bwrdd yn cynnwys 14 o aelodau, yn aelodau gweithredol ac yn aelodau anweithredol.<br>Mae cynrychiolwyr undebau llafur a Chyd-gadeirydd Arweiniol y Bwrdd Cysgodol yn mynychu fel sylwedyddion sy'n cyfranogi. Mae'r Bwrdd yn fy nghefnogi, yn fy herio ac yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Cymru yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion, ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu'r Gweinidogion. Penodir aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn unol ag arferion gorau'r Gwasanaeth Sifil.<br><br>Rwy'n cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac ar ôl pob Bwrdd rwy'n cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn parhau i roi sylw arbennig i feysydd portffolio penodol yn unol â chais y Prif Weinidog.<br><br>Rôl y Bwrdd yw darparu:<br>• Sicrwydd i'r Ysgrifennydd Parhaol wrth iddo gyflawni ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.<br>• Cefnogaeth i'r Ysgrifennydd Parhaol er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu yn ôl y safonau uchaf o ran llywodraethiant, rheolaeth ariannol, rheoli risgiau a phrosesu'r cyfrifon blynyddol.<br>• Cyngor strategol ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a her i'r sefydliad a chyngor i'r Ysgrifennydd Parhaol ar strategaeth, dyluniad a chynllunio gweithlu'r sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben, yn cael adnoddau digonol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r sefydliad cyfan. |

| | |
|---|---|
| **Is-bwyllgorau'r Bwrdd – y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** | Diben y Pwyllgor hwn yw rhoi cymorth a chyngor i'r Ysgrifennydd Parhaol yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu ar reoli risg, rheolaeth a llywodraethiant ac ar y Datganiad Llywodraethiant. Mae'r pwyllgorau hyn (a ddaeth yn Fyrddau Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2025) hefyd yn gweithredu ar lefel Grŵp gyda'u Cadeiryddion yn ffurfio gweddill aelodaeth Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru. Cadeirir yr is-bwyllgor hwn gan Gyfarwyddwr Anweithredol, ac rwy'n mynychu fel Ysgrifennydd Parhaol hefyd. |
| **Is-bwyllgor y Bwrdd – y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol** | Yr is-bwyllgor hwn yw'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol sy'n gorff cynghori strategol i ddarparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar strategaethau a mentrau sy'n gysylltiedig â phobl, risgiau a chyfleoedd allweddol. Mae gan y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol hefyd gyfrifoldebau statudol dros gymhwyso telerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil a'u goruchwylio, gan gynnwys y fframwaith rheoli perfformiad, y strategaeth gyflogau a dyfarniadau cyflog a bydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddadansoddiad rheolaidd o dueddiadau'r gweithlu ar gyfer ein Huwch Wasanaeth Sifil.<br><br>Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n cadeirio'r Pwyllgor, ac rwy'n mynychu pob cyfarfod. |
| **Y Pwyllgor Gweithredol** | Y Pwyllgor Gweithredol yw fforwm gwneud penderfyniadau strategol Llywodraeth Cymru ar lefel swyddogion. Mae'n rhoi cymorth i'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Gynghorydd Polisi'r Prif Weinidog, Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu o dan ei awdurdod. |
| **Yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** | Mae'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn is-bwyllgor o'r Bwrdd Gweithredol. O dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod bob mis i gynghori'r Bwrdd Gweithredol ar reolaeth o elfennau ariannol, llywodraethiant, sicrwydd a masnachol y sefydliad, a rheoli a datblygu gweithlu'r sefydliad. Nod yr is-bwyllgor hefyd yw ysgogi gwelliant parhaus yn y rheoli, y sgiliau a'r galluoedd yn y meysydd hyn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys arweinwyr cyllid a gweithrediadau o bob Grŵp ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, Cyfarwyddwr Caffael a Masnachol, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Cyfarwyddwr Gwelliant Parhaus, y Prif Swyddog Digidol, a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd (y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Swyddog Diogelu Data). |
| **Y Pwyllgor Gweithredol Deddfwriaethol** | Mae'r Pwyllgor Gweithredol Deddfwriaethol yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar lefel swyddogion. Caiff ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac fel arfer mae'n cyfarfod bob chwe wythnos. |


| Llywodraeth Cymru 2025 | Llywodraeth Cymru 2025 (LlC2025) yw ein rhaglen ar gyfer newid a gwella'r sefydliad fel y gallwn gefnogi'r Gweinidogion yn effeithiol a chyflawni dros Gymru mewn cyd-destun ariannol a byd-eang fwyfwy heriol.<br>Rydym bellach yng ngham tri LlC2025. Yn y cam hwn, rydym yn canolbwyntio ar gyllidebau, arloesi a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Byddwn yn defnyddio gwersi rhaglen LlC2025 i helpu i ymgorffori ein Gwerthoedd a'n Hymddygiadau ac i osod y sylfaen y gallwn adeiladu ein cynlluniau cyflawni arni ar gyfer 2026 a'r tu hwnt. Mae meysydd allweddol ein strategaeth LlC2025 yn cael eu cyflwyno drwy ffrydiau gwaith unigol o dan arweiniad Cyfarwyddwr, sy'n cyfarfod yn fisol mewn Bwrdd Rhaglen cyffredinol o dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu. |
|---|---|

## Partneriaethau Cymdeithasol

**4.3** Mae gan Lywodraeth Cymru strwythurau partneriaeth gymdeithasol sefydledig i gefnogi ein gwaith effeithiol gyda chyflogwyr ac undebau llafur yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae gan y strwythurau hyn hanes hir o'n galluogi i gydweithio drwy ein buddiannau cyffredin. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn rhoi'r gwaith partneriaeth hwn ar sail statudol drwy sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

## Fframwaith Sicrwydd

**4.4** Mae fframwaith sicrwydd Llywodraeth Cymru, a ddangosir yn Ffigur 4, wedi cael ei ddatblygu i roi sicrwydd digonol, cyson, parhaus a dibynadwy ynglŷn â stiwardiaeth sefydliadol a rheoli'r risgiau mawr i lwyddiant y sefydliad a darparu gwasanaethau cyhoeddus costeffeithiol, gwell.



| | |
|---|---|
| **Y Cynllun Dirprwyo** | Mae "Rhestr Ddirprwyo" Llywodraeth Cymru yn rhan annatod o system rheolaeth fewnol y sefydliad ac yn cynnig ffordd o gefnogi:<br>• ymatebion cyflym, ystwyth a hyblyg i newidiadau mewn angen a blaenoriaeth;<br>• gweithdrefnau syml a chlir;<br>• eglurder ynghylch cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau, a sicrhau bod y cyfrifoldebau hynny ar y lefel gywir yn y sefydliad;<br>• rhoi dirprwyadau priodol ac atebolrwyddau clir. |
| **Rheoli** | Mae gan reolwyr berchenogaeth o'r gwaith o asesu, rheoli a lliniaru risgiau'n uniongyrchol a chyfrifoldeb ac atebolrwydd am hynny. |
| **Datganiad Llywodraethiant** | Mae'r datganiad llywodraethiant yn nodwedd allweddol ar adroddiad blynyddol a chyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae'n cwmpasu'r cyfnod cyfrifyddu, gan roi dealltwriaeth o strwythur rheolaeth fewnol y sefydliad a'r ffordd y mae'n rheoli adnoddau. Caiff y datganiad ei lywio gan waith a wneir drwy gydol y cyfnod er mwyn cael sicrwydd ynglŷn â pherfformiad a rheoli risg, gan roi darlun o broffil risg Llywodraeth Cymru a'i hymatebion i risgiau a nodwyd a risgiau sy'n dod i'r amlwg. |
| **Rheoli Risg** | Nod y broses rheoli risg yw nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, er mwyn gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith ac yna eu rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y prif egwyddorion ar gyfer rheoli risgiau mewn llywodraeth a nodir yn *The Orange Book; Management of Risk – Principles and Concepts (2019)* Trysorlys EF. |
| **Swyddogaethau Trosolwg** | Dyma swyddogaethau adolygu a monitro Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ei pholisïau, ei chynlluniau, ei rhaglenni a'i phrosiectau yn:<br>• cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig;<br>• sicrhau gwerth da am arian;<br>• cydymffurfio â pholisïau, cyfreithiau, rheoliadau a safonau moesegol perthnasol. |
| **Darparwyr Sicrwydd** | Yn Llywodraeth Cymru, mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddarparwyr sicrwydd annibynnol, gan gynnwys:<br>• Archwilio Mewnol;<br>• Archwilio Allanol;<br>• Adolygiadau Gateway. |

## Tair Llinell Amddiffyn

**4.5** Mae fframwaith sicrwydd Llywodraeth Cymru wedi'i adeiladu ar fodel y tair llinell amddiffyn er mwyn sicrhau bod y gwahanol ffynonellau o sicrwydd yn cael eu nodi a'u deall yn glir, ac osgoi bylchau mewn sicrwydd neu ddyblygu.

**4.6** Mae'r tabl isod yn dangos enghraifft o ble y ceir gwahanol fathau o sicrwydd yn Llywodraeth Cymru, yn gyson â'r model. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r mathau o sicrwydd sydd ar gael yn y sefydliad.

| Llinell Amddiffyn Gyntaf | Ail Linell Amddiffyn | Trydedd Linell Amddiffyn |
|---|---|---|
| **Rheolaethau Rheolwyr** | **Trosolwg Rheolwyr "Y bobl nad ydynt yn marcio eu gwaith cartref eu hunain."** | **Adolygiadau Annibynnol a Gwrthrychol** |
| • Y Cynllun Dirprwyo<br>• Holiadur Rheolaeth Fewnol<br>• Datganiadau Sicrwydd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol | • Rheoli Risg<br>• Swyddogaethau Cydymffurfio megis:<br>– Iechyd a Diogelwch<br>– Asesiadau o'r Risg o Dwyll<br>– Hwb Sicrwydd Integredig – Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau<br>– Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | • Barn Archwilio Mewnol<br>• Archwilio Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>• Adolygiadau CThEF<br>• Adolygiadau Gateway o Reoli Rhaglenni a Phrosiectau<br>• Achrediad ISO18001 |

# 5. Y Berthynas â Chyrff Cyhoeddus Cymru

**5.1** Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid imi fodloni fy hun fod gan bob corff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru systemau digonol i gyrraedd y safonau a amlinellir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**5.2** Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei nodau a'i hamcanion, yn rhannol, drwy nifer o gyrff cyhoeddus a Chyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyrff gweithredol a chynghorol, is-gwmnïau, deiliaid swyddi statudol annibynnol a chyrff cyhoeddus eraill a ariennir gan y llywodraeth. Mae Prif Weithredwr pob corff sydd â swyddogaethau gweithredol yn cael ei benodi'n Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y corff hwnnw ac mae'n gyfrifol am y ffordd y mae'r sefydliad hwnnw'n rheoli cyllid cyhoeddus ac yn cyflawni ei amcanion fel y nodir ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennaeth ysgrifenedig ar gyfer pob corff, gan gynnwys Dogfen Fframwaith sy'n nodi lefel y dirprwyad ariannol a pha benderfyniadau y mae angen i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo.

**5.3** Nod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yw gwella'r broses o ymgysylltu â'r cyrff cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, a'r ffordd y maent yn cael eu llywodraethu. Mae'r Uned yn cefnogi ymgysylltu gwell a threfniadau llywodraethiant mwy effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich. Mae wedi sefydlu templedi ar gyfer fframwaith cyson o rolau, atebolrwydd a dirprwyad ar gyfer yr holl gyrff gweithredol a'r cwmnïau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cefnogi'r defnydd o Lythyrau Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth, a gefnogir gan lythyrau cyllido blynyddol, a model Sicrwydd Risg a hunanasesu sy'n cefnogi adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd.

# 6. GIG Cymru

**6.1** Mae'r GIG yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau rhedeg gwasanaethau iechyd yng Nghymru o ddydd i ddydd yn ystod pob blwyddyn ariannol. Mae'r GIG yn darparu gwasanaethau drwy saith Bwrdd Iechyd, tair Ymddiriedolaeth GIG a dau Awdurdod Iechyd Arbennig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

**6.2** Mae hyn ar ffurf:

- Dyraniadau refeniw i fyrddau iechyd lleol i sicrhau gwasanaethau mewn ysbytai, yn y gymuned a gofal sylfaenol ar gyfer eu poblogaethau preswyl, gan gynnwys Meddygon Teulu, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr;
- Dyraniadau cyfalaf i fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer datblygiadau cyfalaf gweithredol a strategol;
- Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer mentrau gwella iechyd a mentrau eraill Llywodraeth Cymru.

**6.3** Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru. Fel Prif Weithredwr GIG Cymru, mae'n atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn gyfrifol am roi cyngor polisi iddo ac am arwain a rheoli'r GIG yn strategol.

**6.4** Mae gan bob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru Brif Weithredwr sy'n cael ei benodi'n Swyddog Atebol, drwy Femorandwm Swyddog Atebol a gyhoeddir gan Brif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r Memorandwm hwn yn amlinellu cyfrifoldeb y Swyddog Atebol ym mhob sefydliad GIG, gan gynnwys cyfrifoldeb am reolaeth ariannol a pherfformiad.

**6.5** Mae'r Memorandwm yn nodi'n glir bod y Swyddog Atebol yn uniongyrchol atebol am bob mater sy'n ymwneud â pherfformiad ariannol (a phob mater arall sy'n ymwneud â pherfformiad) sydd wedi'i ddirprwyo i'r sefydliad, ac i Brif Weithredwr GIG Cymru fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar.

# 7. Llywodraeth Leol

**7.1** Darperir cyllid grant i Awdurdodau Unedol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yr elfen unigol fwyaf o gyllid grant yw'r setliad blynyddol ar gyfer Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Gellir defnyddio'r cyllid hwn at unrhyw ddiben wrth ddarparu'r gwasanaethau y mae'r awdurdodau hynny'n gyfrifol amdanynt. Pennir cwantwm y cyllid fel rhan o gylch cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Fe'i dosberthir gan ddefnyddio fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r fformiwla'n cael ei chynnal, ei diweddaru a'i gwella drwy raglen waith barhaus gyda llywodraeth leol.

**7.2** Rhoddir cyllid hefyd i awdurdodau drwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, ac yn cael incwm o'r dreth gyngor a bennir yn lleol, ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf a chymorth ar gyfer benthyca. Cydategir hyn gan allu'r awdurdodau eu hunain i fenthyca, grantiau gan gyrff eraill a derbyniadau cyfalaf.

**7.3** Defnyddir trefniadau tebyg i ddarparu refeniw ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a ariennir drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac incwm ardrethi annomestig gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu gan y Swyddfa Gartref, grantiau penodol ac o'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu drwy drefniadau megis grantiau penodol, ardollau a phraeseptau.

**7.4** Mae pob awdurdod yn atebol am y ffordd y mae'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael i gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Awdurdodau Unedol, cyrff yr heddlu, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub gael swyddog penodedig o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau yn cael eu dwyn i gyfrif drwy eu swyddogaethau craffu a thrwy atebolrwydd uniongyrchol i'w hetholwyr lleol. Mae eu materion ariannol yn cael eu llywodraethu drwy fframwaith cyfrifyddu ac archwilio statudol ac mae eu cyfrifon yn destun archwiliadau allanol blynyddol llawn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**7.5** Mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 adolygu eu perfformiad gan gynnwys ymgymryd â hunanasesiadau blynyddol ac adolygiadau gan gymheiriaid bob pum mlynedd, ymgynghori arnynt, eu cyhoeddi a gweithredu arnynt.

**7.6** Mewn perthynas â chyllid a ddarperir at ddibenion penodol, yr adrannau polisi perthnasol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau grantiau unigol. Mae'n ofynnol i'r telerau ac amodau hyn roi sylw dyladwy i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer Cyllid Grant. Drwy gadw at y safonau hyn dylid sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethiant ac ariannol, cyfreithiau perthnasol, polisïau ac arferion da Llywodraeth Cymru. Dechreuodd gwaith yn 2022-2023 i adolygu'r beichiau gweinyddol ar yr awdurdodau lleol o dan Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Nododd hyn fod grantiau penodol yn elfen sylweddol o bryder a chwblhawyd gwaith i drosglwyddo rhai grantiau, lle bo'n briodol, i'r setliad heb ei neilltuo neu i gyfuno grantiau gyda'i gilydd ar gyfer cyllideb 2024-25 a 2025-26. Bydd gwaith ar draws Llywodraeth Cymru yn parhau yn 2025-2026 i asesu'r baich gweinyddol a lleihau effaith y grantiau hyn ar gyfer y blynyddoedd i ddod wrth sicrhau sicrwydd cymesur.

**7.7** O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn cysylltiad â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr awdurdodau lleol a'r adran berthnasol yn Llywodraeth y DU.

# 8. Partneriaethau Cyflawni â Thrydydd Partïon

**8.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu partneriaethau â thrydydd partïon i gyflawni ei hamcanion polisi. Fodd bynnag, nid oes yr un mor arwyddocaol nes bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu arni i gyflawni rhannau craidd o'i busnes ac, yn gyffredinol, rheolir y partneriaethau hyn drwy gyllid grant neu drefniadau masnachol.

# 9. Grantiau i Gyrff yn y Sector Preifat a'r Sector Gwirfoddol

**9.1** Mae grantiau a chyllid ymhlith y dulliau pwysicaf a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru. Mae'r gwaith o reoli grantiau a chyllid arall nas caffaelwyd yn weithgarwch craidd a gynhelir ym mhob adran bron o Lywodraeth Cymru.

**9.2** Yn Llywodraeth Cymru, ceir Canolfan Ragoriaeth Grantiau sydd â'r nod o roi cymorth ar bob agwedd ar y broses grant o'r dechrau i'r diwedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfres gynhwysfawr o ganllawiau/templedi;
- Templed llythyr dyfarnu safonol;
- Safonau Gofynnol Grantiau;
- Blwch e-bost canolog ar gyfer ymholiadau;
- Cymorth wyneb yn wyneb.

**9.3** Er mwyn rhoi cyngor ymarferol a her i Reolwyr Grant wrth ddatblygu cynllun grant newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Panel Sicrwydd Grantiau. Mae'r panel hwn yn cynnwys swyddogion allweddol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, rheoli cymorthdaliadau, gwasanaethau cyfreithiol, archwilio mewnol, gwasanaethau arbenigwyr treth, Swyddfa'r Cabinet a'r tîm polisi perthnasol. Gall rheolwyr grant gyflwyno eu cynigion ar gyfer cynllun grant a chael cyngor ac argymhellion ymarferol gan nifer o ffynonellau, er mwyn helpu i wella'r cynllun grant arfaethedig a sicrhau bod y cynllun grant yn gyson â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru.

**9.4** Yn 2024-25, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid grant gwerth £22.7bn i gyd. Gellir rhannu'r cyllid grant a ddarperir yn ddau gategori penodol. Grantiau heb eu neilltuo yw'r taliadau hynny a roddir i gyrff iechyd lleol a llywodraeth leol ac maent yn cyfrif am £17.5bn o'r cyfanswm o £21.9bn. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn daliadau lle mae pethau clir i'w cyflawni a meini prawf o ran diben y grantiau ac maent yn cyfrif am y £5.2bn o gyllid sy'n weddill.

# 10. Caffael a Masnachol

**10.1** Mae caffael yn weithgaredd hanfodol sy'n ychwanegu gwerth o fewn y llywodraeth, gan helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol.
Mae'n drawsbynciol ac yn ganolog i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol yn cefnogi'r sector cyhoeddus ehangach a gweithgareddau caffael uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

**10.2** Mae tîm Cyflawni Caffael Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth, polisïau a gweithdrefnau caffael Llywodraeth Cymru ei hun. Mae'n cynnig cyngor ac arweiniad ar ran y Swyddog Cyfrifyddu, er mwyn sicrhau bod holl brosesau caffael Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnal yn unol â'i chyfrifoldebau am reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian, ac yn darparu cyfres o gytundebau cydweithredol cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w defnyddio.

**10.3** Mae'r tîm Digidol a Data yn rheoli cyfres o adnoddau e-gaffael a ddefnyddir gan Sector Cyhoeddus Cymru ac mae'n cynnwys gwasanaethau deallusrwydd busnes hefyd.

**10.4** Mae'r tîm Polisi Masnachol yn datblygu deddfwriaeth caffael ac yn darparu cyngor ac arweiniad ar bolisi caffael.

**10.5** Mae'r tîm Capasiti a Gallu Masnachol yn datblygu gallu a sgiliau ar gyfer Llywodraeth Cymru a phroffesiwn caffael ehangach Sector Cyhoeddus Cymru ac mae'n rheoli Cyd – y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Caffael yn Sector Cyhoeddus Cymru.

# 11. Buddsoddiadau, Cyd-fentrau ac Asedau eraill

**11.1** Mae gan Lywodraeth Cymru bum is-gwmni o dan berchenogaeth lawn y mae eu cyfrifon yn cael eu cyfuno yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grŵp Banc Datblygu Cymru.
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio – Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig.
- WGC Holdco Limited.
- Careers Choices Dewis Gyrfa Limited.
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru.

## Mân is-gwmnïau a buddiannau eraill

**11.2** Mae cyd-fentrau canlynol Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y cyfrifon cyfunol:

- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (International Convention Centre Wales Limited) – Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd ar gyfer Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, ac mae'r 50% arall yn cael ei ddal gan Westy'r Celtic Manor (The Celtic Manor Resort Limited).
- Airbus Endeavr Wales (EADS Foundation Wales gynt) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (Cassidian Holdings Limited gynt) a Phrifysgol Caerdydd.

Nid yw buddiannau canlynol Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn y cyfrifon cyfunol:

Llywodraeth Cymru – Adrannau Anweinidogol – maent yn destun gorchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru.

## Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru

**11.3** Mae'r cyrff hyn yn destun gorchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Comisiwn Dylunio Cymru (Design Commission for Wales Limited).
- Hybu Cig Cymru Cyf/Meat Promotion Wales Limited.
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)[8].
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (Life Sciences Hub Wales Limited).
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Limited)[9].
- Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru (Dysgu).
- Trydan Gwyrdd Cymru.
- Cwmni Egino Cyf.
- Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd Cyf.
- Adnodd Cyfyngedig.

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn destun gorchymyn dynodi ac sy'n amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Welsh Development Management Limited.
- Trydan Gwyrdd Cymru Cyf.

---

8 Ar 2 Hydref 2025, yn dilyn adolygiad, bydd Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd tymor presennol cytundeb y llywodraeth, yn dileu ei hun fel unig warantwr Diwydiant Cymru ac yn diddymu'r cwmni.
9 Ar 18 Medi 2025, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y bydd swyddogaethau'r Ganolfan yn cael eu hintegreiddio i Lywodraeth Cymru, a disgwylir i hyn gael ei gyflawni erbyn mis Ebrill 2026.

## Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (Student Loans Company Limited)

**11.4** Mae Llywodraeth Cymru yn dal un gyfran â gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg [Llywodraeth y DU], Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% yn y cwmni i Lywodraeth Cymru.